



tud 5
Cronfa Eleri

tud 8
Dydd a Nos

tud 10
Hwyl Ddewi

tud 12
Chwraeon

Gwneud y Pethau Bychain

Gyda ein bod newydd ddathlu Dydd Gŵyl ein nawddsant, pa ffordd well o gofio am Ddewi na gweithredu ar ei greddo a gwneud y pethau bychain?

Yn ddiweddar mae fwyfwy wedi cymryd at hyn mewn ffordd ymarferol a buddiol iawn gan ymgymryd â gwaith pigo ysbwriel yn lleol. Mae'n weithgaredd sy'n digwydd ar draws y fro gyda phobol yn mynd ati naill ai fesul unigolion neu fel rhan o grŵp. Mae'n digwydd yn ad-hoc, achlysurol a rheolaidd - yn wir mae'n datblygu fel y peth i wneud!

Gwnaeth hysbyseb yn rhifyn Papur Pawb mis Chwefror godi ymwybyddiaeth o ddigwyddiad pigo ysbwriel a drefnwyd gan Cletwr ysbrydoli nifer. Cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus iawn fore Sadwrn 7 Mawrth gyda chriw brwd wedi ymgynnull i gasglu dros 12 sach o ysbwriel o ardal Tre'rddôl mewn llai na dwy awr!

Rhai sydd wedi bod wrthi yn casglu ysbwriel ers blyneddau yw Nikki Myring-Thomas a'i gŵr Mike ynghyd â'r plant Katy a Sion. Mae'r teulu cydwybodol yn byw yn Dôl Pistyll, Tal-y-bont ac yn ymgymryd â'r gwaith yn lleol o amgylch y pentref yn ogystal â bellach i ffordd sydd yn cynnwys yn ddiweddar Ynyslas a Ffwrnais.

"Beth dwi'n sylwi yw mewn amser gymharol fyr faint o effaith gadarnhaol mae pigo ysbwriel yn medru ei gael. Rydym yn byw mewn gobaith gyda bod cymunedau yn cymryd camau cadarnhaol fel hyn y bydd yn cael dylanwad cadarnhaol ar ymddygiad y rhai sy'n achosi'r broblem yn y lle cyntaf".

"Mae casglu ysbwriel yn medru fod yn ffordd dda iawn o gael ychydig bach o ymarfer corff ac awyr iach wrth gael clonc gyda ffrindiau a theulu neu wrth gerdded y ci" aeth Nikki ymlaen i ddweud.


Yn sgil y diddordeb diweddar mae'n debyg ei fod yn fwrriad i gychwyn grŵp pigo ysbwriel lleol - Tacluswyr Tal-y-bont. Y syniad yw bod y grŵp yn cwrdd ddwywaith y mis er mwyn casglu ysbwriel ar y cyd mewn awyrgylch cymdeithasol. Bydd offer pwrpasol ar gael er mwyn uchafu'r ymdrech a sicrhau bod y gweithgaredd yn cael ei wneud mor ddiogel â phosib. Cadwch lygad allan am ragor o wybodaeth yn rhifyn mis Ebrill o Bapur Pawb.



Rachel Behan, Rachel Mills, Chloe Jennings a Duncan Dumbreck

Yn ogystal â chasglu ysbwriel mae yna phethau eraill gall cymunedau lleol ei wneud er mwyn sicrhau fod gogledd Ceredigion yn parhau i fod yn le godidog i fyw ac mae hynny yn cynnwys casglu baw ei cŵn...**Eich Ci, Eich Cyfrifoldeb!** Cofiwch pan allan am dro gyda'ch ci bod modd gwaredu ei wastraff mewn unrhyw un o'r biniau ysbwriel sydd wedi ei leoli yn y fro cyn belled ei fod mewn cwyd.

Byddai gwneud y pethau bychain hyn yn siŵr o wneud Dewi Sant a Chymru gyfan yn falch iawn!



Caru Cymuned • Caru Cynefin • Caru Ceredigion • Caru Cymru

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys: Lynwen Morgan 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Eglwysfach/Ffwrnais: Non Griffiths (01654) 781264
Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Is-gadeirydd: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgrifiadau: Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyr (@papurpawb)

CYMRAG



Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

EISTEDDFOD
Ceredigion

PWYLLGOR APÊL LLEOL

Cynhelir Cinio Sul yn Y Blac, Tal-y-bont
ar 29 Mawrth am 12.30.

Cysyllter â
Fal Jenkins
01970 832560

jenkinsfal@gmail.com

GWASANAETH
GARDIO MYNACH

Torri Porfa, Sietynau,
Tirlinio a Chwynu
Dal Gwaddod
Gwasanaeth cyfeillgar a
phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
01974 261758
07792457816

mynachgarden@yahoo.com

Dyddiadur

MAWRTH

- 14 Dawnsio Albanaidd** 7 Yr
Ystafell Haeam, Eglwysfach
- 15 Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu
Rehoboth 11.15 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Boreol
Weddi
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30
Hwyrol Weddi
Cletwr: Clwb Gemau Bwrdd Machynlleth ar daith 3-5
- 18 Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch Swper Dathlu Dydd Gŵyl Dewi**
- 19 Tai Chi** 2 Yr Ystafell Haeam, Eglwysfach
Galwch Heibio: Nyth 6-7.30
Cletwr
- 20 Cwis** 8 Wildfowler
- 21 Dal Ati** 11-12 Cletwr
- 22 Bethel** 10 Geraint Evans
Rehoboth 11.15 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.30
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Cymun
Bendigaid
- 24 Tennis Bwrdd** 7.30 Yr Ystafell Haeam, Eglwysfach
- 26 Tai Chi** 2 Yr Ystafell Haeam, Eglwysfach
- 28 Gwledd Syriaidd** 7-9 Cletwr
- 29 Bethel** 10 Uno yn Seion, Aberystwyth, Owain Llŷr Evans
Nasareth 10 Undebol ym Mhenllwyn
Rehoboth 10 Undebol ym Mhenllwyn

Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15

Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach

Cinio Sul yn y Blac 12.30 Yr elw i gronfa leol Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020. Cysyllter â Fal Jenkins

- 31 Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn** 'The California of Wales: mining for silver, lead & zinc in mid-Wales' (Ioan Lord) 7.30 Llanfach

EBRILL

- 2 Tai Chi** 2 Yr Ystafell Haeam, Eglwysfach
- 5 Bethel** 11.15 Uno yn Nasareth
Nasareth 11.15 Bugail
Rehoboth 11.15 Uno yn Nasareth
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30
Cymun Bendigaid
- 6 Sefydliad y Merched Eglwysfach** Matthew Leeman
- 7 Sefydliad y Merched Taliesin** Cegin Gareth, Llanbedr Pont Steffan
- 9 Tai Chi** 2 Yr Ystafell Haeam, Eglwysfach
- 10 Bethel** 10 Gwilym Tudur (C)
- 12 Bethel** 10 Uno yn Seion, Aberystwyth, Gwilym Tudur
Nasareth 10 Undebol yn y Garn
Rehoboth 10 Undebol yn y Garn
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach

Cletwr

Bob dydd Mawrth 'Clonc a Gweu' 3-5
Bob dydd Sul 'Rhedeg Cymdeithasol' 9.30-10.30



Darlith Flynyddol
Morlan / Pantyfedwen
Mawrth 23
am 6 o'r gloch
'Postmillennial Values: findings from a major study of 18-25 year olds'
Yr Athro Linda Woodhead

morlan.aber@gmail.com

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH 01970-617996

LRJ
Plymio cyffredinol a chynhaliaeth

Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk

Cronfa Goffa'r Fonesig Grace James

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau am gymorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2020.

Yr ysgrifennydd yw:
Delyth Davies, Bryn Siriol, Lluet, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3AU
01970 617397 | e-bost delythd Davies6@gmail.com

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Non a Gerwyn, gyda Ceri yn dylunio. Diolch iddynt. Y golygyddion ar gyfer y rhifyn nesaf fydd Delyth a Bledwyn (huws.henllan@btinternet.com). Y dyddiad cau yw 3 Ebrill a bydd y papur ar werth ar 10 Ebrill.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Neilson a Sue, Hafod Elerch, Bont-goch ar ddod yn dad-cu a mam-gu. Ganed Bradley yn Ysbyty Gyffredinol Bronglais ar 23 Chwefror, yn fab i Katie a'i phartner a fu farw'n diweddar, ac fe'i enwyd y plentyn ar ôl ei dad oedd hefyd yn dwyn yr enw Bradley. Dymunwn bob bendith ar y teulu.

Pen-blwydd arbennig

Dymuniadau gorau i Wendy Kelly, Maesyderi ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Hefyd llongyfarchiadau mawr i Hanna Evans, Cefngweiriog ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw yn ddiweddar.

Eglwysfach

Mae'n rhyfeddol faint o arian mae ein cymuned fechan yn medru codi at achosion da, o dan nawdd yr Eglwys Sant Mihangel. Cynhaliwyd bore coffi ar Ddydd Sadwrn 22ain o Chwefror yn yr Ystafell Haearn at Gaffi Y Well, Stryd y Popty Aberystwyth, elusen i helpu y digartref a'r rhai ddi feintredig gan gynnig darpariaeth iddynt. Cafwyd cynrychiolaeth dda, a chodwyd y swm sylweddol o £300 at yr achos teilwng yma.

Eisteddfod 2020

Derbyniodd pob Cronfa Apêl Leol, Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 gopi o brint cyfyngedig o waith yr artist Rhiannon Roberts. Mae'r darlun lliwgar yn cynnwys chwe chwpled o waith beirdd y sir.

Penderfynodd Pwyllgor Apêl Ceulanamaesmawr, Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed eich gwahodd i roi cynnig ariannol amdano mewn amlen dan sêl a'i anfon at y trysorydd, Ellen ap Gwynn, erbyn 31 Mawrth. Derbynnir y cynnig cyntaf uchaf amdano.

Yn yr Ysbyty

Derbyniodd Huw Rowlands, Erglodd, benglin newydd ym Mronglais yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn gwella'n dda erbyn hyn.

Dymuniadau gorau hefyd i Simon Hughes, Melin Leri, Tal-y-bont sydd hefyd wedi derbyn llawdriniaeth yn ysbyty Bronglais.

Pobl a Phethe



Bardd o fri

Llongyfarchiadau i Carys Briddon ar ennill y gadair yn Eisteddfod Llanfihangel-ar-Arth ar 29 Chwefror am lunio telyneg ar y testun 'Gwawr'. Y beirniad oedd Dr Hanna Hopwood Griffiths. Dyma'r ddeuddegfed cadair y mae Carys wedi'i hennill – camp a hanner!

Marwolaeth

Trist iawn cofnodi marwolaeth Richard Howard (Dic Bach), Tre'r-ddôl. Roedd Dic yn un o gymeriadau adnabyddus a hoffus y fro a bydd colled mawr ar ei ôl. Estynnir cydymdeimlad at y teulu.

Dathlu Priodas Ddiemwnt

Bu dathlu yn Pantydwn yn ddiweddar wrth i Gerallt a Mair ddathlu eu priodas diemwnt. Llongyfarchiadau gwresog iawn iddynt.

Babis! Babis!

Fel mae Aled Hughes yn ei ddweud ar ei raglen ar Radio Cymru, croeso i'r byd Gymry bach newydd sbon!

Croeso felly i Efan Morgan Aubrey, mab bach Holly a Wayne a brawd bach i Erin, Gleanings, Tal-y-bont.

Croeso hefyd i wŷr bach newydd Patrick a Sandra Lavery, Heulwen Haf, Tal-y-bont a aned yn yr Almaen.

Mae teulu Cerrigarranau hefyd yn dathlu genedigaeth Lowri Menna, merch fach arall i Eifion a Sara Jenkins.

Teithio

Bu Serian Evans, Penrhiw, Bont-goch yn ddigon ffodus i dreulio 10 diwrnod yn teithio yn yr India yn ddiweddar, ac yna 10 diwrnod pellach ar ynys Sri Lanka. Cafodd amser da iawn a chyfle i ymweld â rhai o ryfeddodau'r byd, fel y Taj Mahal a'r Sigiriya, neu Craig y Llew yn Sri Lanka. Croeso adref Serian.

Eglwys St. Pedr, Elerch

Ni chafwyd gwasanaeth ar Ddydd Gŵyl Ddewi eleni gan i ni ymuno â holl eglwysi gofalaeth Bro Padarn mewn gwasanaeth Cymraeg yn Eglwys Llanbadarn Fawr. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Y Parch Ganon Andre Loat, gyda chymorth Y Parch Alun Evans a'r Parch Ganon Enid Morgan.

Noson Bingo

Codwyd agos i £350 tuag at apêl bws mini Ysgol Llwyn-yr-Eos, Penparcau mewn noson Bingo yn y Llew Gwyn yn ddiweddar. Diolch mawr i bawb wnaeth gefnogi sydd yn cynnwys nifer o fusnesau lleol.

Gwellhâd Buan

Mae'n dda gweld fod Keith Evans, Pen-y-graig, Bont-goch bellach yn ôl yn ei waith ar ôl cyfnod o salwch. Dymunwn yn dda iddo.

Gwellhad buan hefyd i Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont a Margaret Jones, Nantgaredig, Tal-y-bont sydd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Trist cofnodi marwolaeth mam-gu Shelley Foulkes, Taliesin. Estynnwn ein cydymdeimlad iddi hi a'r teulu.

Hefyd cydymdeimlwn â theulu Vera, Dôl Pistyll, Tal-y-bont yn dilyn ei marwolaeth diweddar.

Cylch Meithrin Tal-y-bont



Diwrnod Crempog

Bu'r plant yn cogino crempog ar ddydd Mawrth Ynyd eleni. Roedd pawb wedi mwynhau cymryd rhan i'w gwneud a'u bwyta!

Dathlu Gŵyl Ddewi

Cafwyd wythnos llwyddiannus iawn yn dathlu Gŵyl Ddewi eleni gyda'r plant yn gwisgo yn eu gwisgoedd Cymreig neu mewn coch. Roedd gweithgareddau Cymreig wedi eu trefnu ar eu cyfer yn ystod yr wythnos i hybu Cymreictod.

Diwrnod y Llyfr

Cafodd y plant gyfle i wisgo fyny fel cymeriadau allan o lyfr ar gyfer Diwrnod y Llyfr. Daeth teigr, Pepa Pinc, cwningen a llawer mwy o gymeriadau i'r Cylch! Roedd gwerth eu gweld!

Ysgol Tal-y-bont



Diwrnod y Llyfr



Diwrnod y Llyfr



E-ddiogelwch



Helfa'r Ddraig



Helfa'r Ddraig

Cymdeithas Rehoboth



Cyfarfu'r Chwirydd yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 11 Chwefror, ac estynnwyd croeso i'r gŵr gwadd, Richard Huws, Bont-goch. Er mai brodor o sir Gaerfyrddin yw Richard, treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd yng Ngheredigion. Daeth i'r Brifysgol yn Aberystwyth yn 1969, ac yna bu'n gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol am bron i ddeugain mlynedd, cyn ymddeol o'i swydd fel Pennaeth y Gwasanaethau Darllen. Bu'n byw yn Bont-goch ers 2002, ac mae wedi cyhoeddi sawl cyfrol ar bynciau amrywiol megis hanes lleol a chwaraeon. Teitl ei sgwrs oedd 'Tai a Phobl Elerch', a thrwy gyfrwng lluniau ar sgrin cawsom weld a chlywed hanes diddorol nifer o dai a ffermydd yr ardal, yn ogystal â gweld lluniau nifer o bobl a fu'n byw yn y pentref, hwythau hefyd wedi cyfrannu i hanes diddorol y pentref yn y dyddiau a fu. Diolchwyd iddo am sgwrs ddifyr iawn, ac yna mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Mona Rowlands a Meinir Fleming.



Dydd Gŵyl Dewi

Ysgol Tal-y-bont

Hybu darllen

Roedd hi'n bleser croesawu Helen Jones i'r ysgol yn ystod y mis i gynnal gweithdy darllen gyda phlant Cyfnod Allweddol 2. Mae hybu darllen yn flaenoriaeth gyson yn yr ysgol, ac mae'n braf cael pobl brwdfrydig i rannu eu profiadau gyda ni am y pleser sydd o ddarllen llyfrau da. Dangosodd Helen y cyfoeth o lyfrau sydd ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd ac roedd ei chlywed yn siarad yn siŵr o ysbrydoli'r plant ymhellach.

Ysgol Iach

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ymarfer a gwella eu medrau yn y byd chwaraeon ar hyd y flwyddyn. Mae'r cynllun llysgenhadon efydd wedi ychwanegu at y ddarpariaeth wrth i'r plant gymryd cyfrifoldeb dros gynnal eu gweithgareddau eu hunain. Diolch yn fawr i'r ddau brwdfrydig am drefnu'r cyfan ar ein cyfer.

Clwb yr Urdd

Mae yna ddigon o hwyl a sbri yn ein clwb wythnosol. Maen gyfle da i wneud gwaith celf neu chwaraeon a beth arall oedd yna i'w wneud ar Ddydd Mawrth Ynyd ond cael rasys crempogau yn y neuadd! Sgiliau da gan bawb i gadw'r crempog yn y ffrimpan! Diolch i'r holl athrawon am drefnu'r sesiynau.

Cymdeithas Rieni

Mae gennym Gymdeithas Rhieni ac Athrawon gweithgar a brwdfrydig sy'n cefnogi'r ysgol ym mhob dim sy'n cael ei drefnu. Yn dilyn taith seiclo noddedig hynod lwyddiannus dros haf 2019, penderfynwyd defnyddio'r arian i brynu meinciau picnic i'r ardal chwarae. Maent wedi cael defnydd da yn barod.

Sêr y Sgwteri

Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi llwyddo i ennill y sgwteri dros y mis diwethaf. Cofiwch sgwtera'n ddiogel.

E-ddiogelwch

Mae'r ysgol yn falch iawn o hybu gweithgareddau cadw'n ddiogel ar y we. Mae cadw pawb yn ddiogel wrth fynd ar y cyfrifiadur yn fater pwysig iawn i ni a buom wrthi unwaith eto eleni'n atgyfnerthu'r negeseuon pwysig am e-ddiogelwch gyda'r staff a gyda'r plant. Roedd hi'n hyfryd croesawu PC Hannah i drafod a rhannu syniadau gwerthfawr am ddiogelwch ar y we gyda ni. Diolch yn fawr i chi am ddod atom.

Diwrnod y Llyfr

Roedd yna dipyn o fwrlwm eleni eto wrth ddathlu Diwrnod y Llyfr! Roedd cryn dipyn o amrywiaeth eleni eto gyda chymeriadau poblogaidd o lyfrau Harry Potter a David Walliams wedi ymweld â ni. Roedd llawer wedi mynd i gryn drafferth i wisgo i fyny – diolch i chi gyd am eich ymdrech. Roeddem ni wedi mwynhau chwarae'r cardiau Top Trumps newydd yn fawr iawn yn ystod y dydd. Cofiwch wario'r talebau a mwynhewch y darllen.

Helfa'r Ddraig

Diolch o galon i Kate January McCann am ddod fewn atom i gyflwyno'r llyfr hyfryd 'Ga' i Hanes Draig' gan yr awdures Jackie Morris a Mererid Hopwood. Diolch hefyd am drefnu helfa drysor draig o gwmpas yr ysgol. Roedd y plant wedi cael amser wrth eu boddau'n dod o hyd i'r gwahanol wrthrychau. Diolch hefyd am faner Owain Glyndŵr i ddosbarth Blwyddyn 1 a 2 – perffaith ar gyfer y 'castell'.

Eisteddfod yr Ysgol

Cofiwch am Eisteddfod yr Ysgol fydd i'w chynnal yn y Neuadd Goffa ar ddydd Gwener, Mawrth 27ain. Croeso cynnes i bawb.

Cronfa Eleri

Sefydlwyd Cronfa Eleri yn 1998, gyda £10,000 o bunnoedd y flwyddyn i'w rhannu (i gynyddu yn ôl chwyddiant). Ers hynny, dosrannwyd dros £308,000 o gymorth i dros 200 o gynlluniau. Er mwyn penderfynu pwy oedd i dderbyn cymorth fe sefydlwyd *Pwyllgor Cronfa Eleri* a fu'n gweithredu bob blwyddyn ers hynny i drafod y ceisiadau am gymorth ac i awgrymu i gwmni *Amgen* sut y dylid dosrannu'r arian. Gweinyddir y ceisiadau gan *Ysgrifennydd (Mygedol) Cronfa Eleri*. Mae hawl gan unrhyw unigolyn, corff neu fudiad wneud cais am gymorth i weithredu prosiectau sy'n unol ag amcanion Y Gronfa - sef "*Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu*." Maint Y Gronfa yn 2019 oedd £19,775. Mae'r Gronfa yn awr ar gau i geisiadau. Y cyfnod nesa ar gyfer ceisiadau fydd Tachwedd 2020 i Ionawr 2021. Mae manylion llawn ar gael ar www.cronfaeleri.cymru

Bu natur y cynlluniau a gefnogwyd yn amrywiol iawn. Cyfrannwyd at adnewyddu adeiladau; prynu offer megis cadeiriau, llwyfannau ac offer uchelseinydd; offer chwaraeon a gwella adnoddau clybiau; adeiladu meysydd chwarae i blant; prynu offer i wasanaeth papur i'r deillion; datblygu cylchgronau ysgol a phapurau bro; a myrdd o gynlluniau eraill. Nid yw rheolau Cronfa Eleri yn caniatáu cefnogaeth refeniw (h.y. costau cynnal rheolaidd) i fudiadau a chymdeithasau - dim ond cefnogaeth i gynlluniau penodol.

Yn 2019, nifer ceisiadau oedd 17 a cefnogwyd 10 ohonynt. Y cais uchaf oedd £7,500 a'r isaf yn £400. Y gefnogaeth uchaf roddwyd eleni oedd £5,000 a'r isaf yn £400. Y ceisiadau llwyddiannus eleni oedd y rhai gan Neuadd Rhydypennau, Licris Olsorts, Clwb Pêl-droed Bow Street, Ysgol Tal-y-bont, Ysgol Rhydypennau, Ysgol Penrhyncoch, Cylch Meithrin Rhydypennau, Parc Llandre, Ysgol Penllwyn a Neuadd Tal-y-bont.

Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Rheoli Neuadd Goffa Tal-y-bont

Cynhaliwyd cyfarfod Blynyddol y Pwyllgor Rheoli ar 12 Chwefror dan gadeiryddiaeth David Nutting. Cyfeiriodd at flwyddyn brysur arall yn hanes y Neuadd a diolchodd i'r swyddogion a'r aelodau am eu cefnogaeth. Cynhaliwyd sawl digwyddiad llwyddiannus, gan gynnwys y Ffair Nadolig lle godwyd y swm uchaf mewn cof at goffrau'r Neuadd.

Derbyniwyd adroddiad ariannol gan y Trysorydd Ieuan Morgan yn dangos bod yr incwm am y flwyddyn wedi cyrraedd £6700 gyda chostau o £6259. Cytunwyd i gadw'r telerau llogi ar yr un lefel. Roedd modd gwneud hynny o ganlyniad i'r arian a godwyd yn y Ffair Nadolig a chyfraniad hael Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr.

Derbyniwyd y newyddion llawen oddi wrth Cronfa Eleri fod ein cais am gymorthdal i wneud gwelliannau a harddu'r Neuadd Waelod wedi llwyddo. Diolchwyd iddynt yn ddiffuant am y nawdd a fydd o gymorth mawr i'r pwyllgor wrth ddal ati i wella'r cyfleusterau yn y Neuadd.

Gyda thymor y Cadeirydd presennol yn dod i ben dyrchafwyd Janet Jones, Llwynglas i'r Gadair, ac wrth ymgymryd â'r swydd diolchodd i Dei am ei holl waith fel Cadeirydd yn ystod y ddwy flynedd a aeth heibio. Cyfeiriodd at ei ddull effeithiol o gyflawni ei ddyletswyddau ac ychwanegodd Bob Williams yntau ei ddiolch i'r swyddogion i gyd am eu gwasanaeth.

Etholwyd y canlynol:

Cadeirydd: Janet Jones

Is-gadeirydd: Dafydd Jenkins

Ysgrifennydd: Phil Davies

Trysorydd: Ieuan Morgan

Trysorydd Codi Arian: David Nutting

Mae gwahoddiad agored i unrhyw un sydd yn dymuno gwasanaethu ar y Pwyllgor Rheoli i gysylltu â'r Ysgrifennydd. Mae'r neuadd yn adnodd amhriiadwy a byddai'n braf medru denu gwaed newydd i gynorthwyo gyda'r gwaith rheoli.

D.Ph.D.

Theatr Bara Caws

yn cyflwyno

Draenen Dducyfieithiad **Angharad Tomos** o ddrama Charley Miles

Daw'r teitl o sgwrs rhwng dau gymeriad am y ddraenen ddu sy'n blanhigyn tu hwnt o anodd cael gwared ohono fo. Mae nhw'n trafod sut mae'r hyn sy'n ymddangos fel dau blanhigyn ar yr wyneb yn tarddu o'r un lle, a bron yn amhosib ei ddadwreiddio. A dyma un o broblemau dwysaf cefn gwlad heddiw.

Ddylen ni aros neu adael? Datblygu neu warchod?

Beth ddaw o'n cymunedau ni, a chyfrifoldeb pwy yw eu parhad?

Hen, hen thema sydd yma, ond mae'n cael ei chyflwyno i genhedlaeth newydd mewn modd annwyl, doniol a dirdynol.

Y ddau yn y ddrama yw'r plant cyntaf sy'n cael eu geni yn y pentref ers ugain mlynedd. Wrth iddynt dyfu mae'r cyfrifoldeb yn disgyn ar eu hysgwyddau nhw. Mae Hi yn gadael, a'n dod yn ôl o bryd i'w gilydd. Mae O yn aros, a'n gweithio ar y fferm. Wrth iddynt dyfu'n hŷn, mae nhw'n cwrdd yn achlysurol – amser angladd, priodas neu dros y Dolig. Yn ei dychymyg Hi, mae bro ei phlentyndod yn aros. Iddo Fo, mae'n dyst i'r newid yn ddyddiol. Mae'r hen wynebâu'n marw, a rhai dieithr yn dod yn eu lle. Mae sawl tŷ ar werth, tai haf yn britho'r ardal, ac mae enwau ffermydd a chaeau dan fygythiad.

YDA CHI'N GWYBOD AM ENWAU LLEOL SYDD WEDI EU NEWID YN EICH CYMUNED CHI? YDA CHI WEDI GORFOD CWFFIO DROS YR HAWL I WRTHOD? FASA NI WRTH EIN BODDAU TASA CHI'N GYRRU ENGHREIFFTIAU I NI GAEL CYNNWYS FAINT FEDRWN NI YN Y RHAGLEN.

Gyrrwch at betsan@theatrbaracaws.com a diolch rhag blaen am gyfrannu.

Taith o amgylch cymunedau Cymru rhwng Mai 12 – Mehefin 6, 2020.

Cast: Rhian Blythe a Rhys ap Trefor



(Tynnwyd y llun ym Mis Mawrth 1995. Rhai o blant Tal-y-bont gyda'r awdur Elwyn Ioan o flaen Siop y Pentref pan oedd Swyddfa'r Post o dan fygythiad am y tro cyntaf.)

Pentref Heb Siop, Pentref Heb Galon

Edrychai Phil yn eiddgar ymlaen at orffen gwaith,
At ddydd ei ymddeoliad ar ôl llafurwaith maith.
Breuddwydiai am foreau o fwyn segurdod braf,
Â'i *Western Mail* yn gwmni, boed aeaf neu foed haf.

Breuddwydiai am gael darllen pob stori heb ddim hast,
Am hanes Catherine Zeta, neu ddyn yn colli gast,
Am helynt Gweilch ac Elyrch a hanes y bêl gron,
Cyn troi at wneud y croesair am awr neu ddwy o'r bron.

A'r bore cyntaf hwnnw, â'i slipyrs am ei draed,
Brasgamodd lawr y grisiau ond siomedigaeth gaed.
O'r cyntedd daeth yn waglaw, doedd dim byd wrth y drws,
Heb bapur yn ei ddisgwyl, fe deimlodd Phil y blŵs.

Aeth ati i wisgo sgidie, ei sgarff, ei hat a'i got,
A pâr o fenig gwlanen, a mas ag ef fel shot.
Cyrhaeddodd Siop y Pentref mewn munud, mwy neu lai,
Ond o'r fath siom a gafodd wrth weld y drws ar gau.

Fe geisiodd troi y bwlyn, a chanu'r gloch yn flin;
A chicio'r drws yn galed ond gwelwyd yr un dyn.
Yn sydyn welodd neges yn sownd ar ddarn o bren,
The shop will soon re-open. We hope to see you then.

Er iddo deimlo'n ddiflas, os oedd y geiriau'n wir,
Fe fyddai'r Siop yn agor, a hynny cyn bo hir.
Ar hynny trodd am adref, a rhoi y tecil mlân,
Ail ddodi'r slipyrs am ei drâd a chwtsho flân y tân.

* * * * *

Tair mlynedd wibiodd heibio, a'r siop sy'n dal ar gau,
A hoffai Phil gael gwybod pwy yffach sydd ar fai.
Sdim Post na siop bapurau, na lle i mofyn llâth,
Heb obaith prynu *Golwg* na *Lol* na stwff o'r fath.

Un tro fe welwyd gweithwyr yn peintio'r lle yn sionc,
Gan lenwi Phil â gobaith, a'i galon roddodd sbonc.
A phan ddaeth rhewgell newydd rhyw ddydd ar lori fawr,
Y pentref oll a ddathlodd, gan ddisgwyl am yr awr.

Y til gyrhaeddodd nesaf, a hwnnw sy'n ei le,
Yn barod am gwsmeriaid o'r Gogledd ac o'r De.
Mae golau yno weithiau a chlywir sawl hwre,
Pan welir rhywun diarth yn taro lan o'r dre.

Ond ofer fu y disgwyl, mae'r cloncan wedi mynd,
Sdim cyfle yno bellach i dynnu coes rhyw ffrind.
Cyrhaeddodd degawd newydd, pob gobaith ddaeth i stop,
A glaswellt sydd yn tyfu ar lwybr hir i'r Siop.

DPhD

Chwefror 2020

 HUW LEWIS  M.O.T. CENTRE	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT HUWLEWISTYRES.COM	 TEIARS HUW LEWIS  TYRES
Glanyrafon		Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan. ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000 LLANBED 01570 422221		

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Rose Hastings Rees (1883-1939) – merch Ficerdy Elerch



Ysgol Gynradd Rotherfield Peppard

Ar gyrion Henley-on-Thames, yn ne Swydd Rhydychen, mae pentref hyfryd a llwyrchus Rotherfield Peppard. Ffilmiwyd sawl pennod o *Midsomers Murders* yno yn ogystal â *Howard's End*.

Yn 1922 penodwyd prifathrawes newydd i'r ysgol gynradd o'r enw Rose Hastings Rees. Ganed Rose yn Ficerdy Elerch ar 3 Ionawr 1883, y seithfed plentyn o'r wyth a anwyd i'r ficer lleol John Rees a'i briod Augusta – ef oedd y ficer cyntaf i fyw yn y Ficerdy newydd a gwblhawyd yn 1875. Bu Rees yn offeiriad Elerch ers 1870, ond yn fuan ar ôl genedigaeth Rose ymadawodd i ofalu am blwyfi yn Sir Frycheiniog, cyn gorffen ei yrfa yn 1919 fel rheithor Treletert yn Sir Benfro.

Yn ôl arferiad y cyfnod gyrrwyd Rose i ysgol fonedd. Sicrhawyd lle iddi yn St. Brandon Clergy Daughters' School ym Mryste, lle roedd ei chwaer hŷn, Mary Margaretta Rees, a anwyd yn Elerch yn 1870, yn athrawes gynorthwyol.

Bu Rose yn dysgu yn Sir Benfro am gyfnod cyn iddi sicrhau'r swydd yn Rotherfield Peppard. Bu'n brifathrawes yn Peppard tan ei hymddeoliad yn 1943.

Dewisodd ei rhieni ymddeol i Rotherfield Peppard, ac maent wedi eu claddu yno yn Eglwys yr Holl Seintiau. Bu ei mam farw yn 1922 a'i thad yn 1924.

Ymhen amser symudodd Rose i Worthing yn Sussex lle bu hithau farw ar 10 Mai 1969 yn 86 oed.

Richard E. Huws

*Diolch i Keith a Sandra Atlinson, Rotherfield Peppard am eu cymorth.



Clwb Ieuenctid Tal-y-bont

Mae dwy flynedd bellach wedi mynd heibio ers i Glwb Ieuenctid Tal-y-bont ail-ffurfio.

Mae'r Clwb yn cwrdd bob nos Wener yn y Neuadd Goffa rhwng 18:30 a 20:30 yn ystod tymhorau'r ysgol. Mae'r Clwb ar agor i unrhyw bobl ifanc o Dal-y-bont a'r ardal gyfagos rhwng 10-16 oed.

Mae'r gweithgareddau wythnosol yn cynnwys pŵl, tenis fwrdd, pêl-droed pêl feddal, hoci stryd, celf a chreffft, rygbi cyffwrdd a gwylio ffilmiau. Ynghyd â'r gweithgareddau, un o'r uchafbwyntiau wythnosol yw'r byrbrydau a'r danteithion sy'n cael eu paratoi yn y gegin. Mae'r fwydlen wedi cynnwys crempogau, cacennau cwpan, toasties a Spaghetti Bolognaise ac mae'n ehangu fel y mae llinellau gwasg arweinwyr y Clwb!

Mae'r Clwb hefyd yn mwynhau gweithgareddau i ffwrdd o'r Neuadd sydd wedi cynnwys teithiau cerdded o amgylch Braich Garw a phicnic yn Allt-y-Crib neu ymhellach i ffwrdd. Rydym hefyd wedi mentro mor bell â'r Orsaf Dân yn Aberystwyth, Bowlio Deg yng Nghlarach, gemau traeth a sgloodion yn Borth yn ogystal ag ymweld â'r sinema yn Libanus 1877.

Ffrefryn cadarn yn y calendr yw'r daith i Wyl Gaeaf Aberystwyth ar gyfer y sgelfrio iâ! Rydym yn falch o adrodd na chafwyd unrhyw anafiadau ... hyd yn hyn!

Yn ogystal â'r bobl ifanc mae yna rai aelodau hŷn o'r Clwb sy'n gofalu am y gweithgareddau a'r trefniadau. Maent yn ei mwynhau bron cymaint â'r bobl ifanc eu hunain ag y mae'n gyfle cymdeithasol gwych!

Mae'r Clwb wedi bod yn ffodus ei fod wedi derbyn grantiau gan nifer o'r Cyngorau Cymuned Lleol yn ogystal â Chronfa Eleri. Mae'r Clwb hefyd wedi elwa o gefnogaeth gan fusnesau lleol gan gynnwys Gareth a Bev o'r Llew Gwyn, Aberystwyth Ar Y Blaen, Steve a Claire o Garej Davmor a'r Cambrian News. Defnyddiwyd yr arian i brynu offer cegin ac offer arall. Mae hefyd yn golygu y gall y Clwb gynnig ei weithgareddau yn rhad ac am ddim i'w aelodau. Mae Lynn Ebenezer yn garedig iawn yn gofalu am gyfrifon y Clwb. Mae diolch enfawr yn cael ei estyn i un ac oll - allem ddim wneud heb chi!

Os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy neu ymuno â'r Clwb fel aelod neu arweinydd, yna naill ai galwch heibio'r Neuadd Goffa ar nos Wener neu ymwelwch â'r dudalen Facebook 'Clwb Ieuenctid Talybont Youth Club'.

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Buyd da... Cwmni da!

BLACK LION HOTEL

Blac

01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

Dydd a Nos

Dyma bennod 7 o'r stori dditectif gyffrous Geraint Evans. Y tro hwn cawn wybod beth yw ystyr yr adnod.

'Dydd a nos yr amgylchiant hi ar ei muriau: ac y mae anwiredd a blinder yn ei chanol hi.'

Dangosodd Gareth yr adnod i'r Parchedig Tom Francis, offeiriad Eglwys yr Holl Saint Aberystwyth. "O bosib, neges gan Meurig Rhys. Oes 'na arwyddocâd arbennig i'r geiriau?"

Edrychodd Francis ar y dudalen a myfyrio cyn ateb. "Darn o Salm pum deg pump. Mae'r Salm yn alarnad a'r awdur, y brenin Dafydd efallai, yn flin oherwydd ei fod yng nghanol gelynion ac yn neilltuol am frad un o'i ffrindiau agosaf. Os rwy'n cofio mae'r adnodau sy'n dilyn yn gondemniad hallt ar y bradwr, cyfaill mynwsol sy'n cael ei ddisgrifio fel cydymaith a chydynabod."

"Pam dydd a nos?"

"Mae'r elyniaeth yn gyson, pedair awr ar hugain ac mae'r salmydd wedi'i glwyfo'n feddyliol oherwydd y casineb di-baid ac oherwydd fod rhywun a oedd gynt yn gyfaill bellach yn elyn."

Daeth yr atebion mewn llais pwylllog tawel ac wrth edrych arno ystyriodd Gareth nad oedd y Parchedig Tom Francis yn ffitio'r ddelwedd ddisgwyliedig o ficer. Gwisgai jîns a chrys t melyn oedd yn cyhoeddi'r neges *'too blessed to be stressed'* ac roedd ei wallt tywyll wedi'i dorri mewn steil ffasiynol, clos at y croen. "Rhys yn aelod ffyddlon o'r eglwys. Adnabod yn dda felly?"

"Na, yn fy marn i, doedd neb yn adnabod Meurig Rhys yn dda. Cywiriad, fy rhagflaenydd, os oedd rhywun yn adnabod y dyn, Parch Edwin Vernon oedd hwnnw. Rhys a Vernon yn cydweld ar ddulliau addoli ac yn glynu at y traddodiadol a dyna'r gair gorau i ddisgrifio Rhys, traddodiadol. Y fersiwn o'r adnod er enghraifft, o gyfieithiad William Morgan, cyfieithiad sanctaidd yng ngolwg yr Athro. Unrhyw beth arall yn ffeiddbeth ac yn sarhad ar y Gymraeg. Yn ystod offeiriadaeth Vernon **roedd** Rhys yn ffyddlon, yn ffyddlon i'r aroglarth, y defodau a'r llafar-ganu. Beth oedd e yn labeli fel *the beauty of worship*. Dwy flynedd yn ôl apwyntiwyd fi i ofalaeth Yr Holl Saint yn bennaf oherwydd i'r Esgob weld fod angen newidiadau. Fe roddwyd y newidiadau yn eu lle, cynyddodd y gynulleidfa a daeth ffyddlondeb Rhys i ben."

"Y newidiadau, curo dwylo, clapio, canu pop?"

"Anghywir. Cyd-bwysedd, emynau modern a'r clasuron, yr aelodau'n chwarae rhan yn yr oedfa, myfyrdodau byr, negeseuon cyfoes a myfyrdod nid pregeth. Gas gen i'r gair pregeth, fel petai gen i hawl i ddwrddio. Os nad yw'r eglwys yn newid mae'n marw, dyna drafferth nifer sylweddol o addoldai Cymru. Dewch Insbector, chi'n credu bod yr ateb mewn rhyw nonsens *happy-clappy*? Chi'n well na hynna!"

Dwysbigwyd Gareth o glywed y cerydd. "Sori, hollol annheg." Ymdrechodd i newid y testun, "manyion eich rhagflaenydd, cyfeiriad er enghraifft?"

"Wrth wal orllewinol yr eglwys yn y fynwent tu allan. Buodd Edwin Vernon farw saith mis ar ôl ymddeol."

"Ac ers i Rhys ymbellhau welsoch chi fe o gwbl?"

"Dwy waith yn y dre. Croesi'r ffordd y tro cynta i agor sgwrs,

ymateb swta. Yr ail dro, codi llaw a Rhys yn anwybyddu'n llwyr. Yna, yn gynharach eleni, pum mis efallai clywed am y salwch, galw yn Penlan a nyrs ar y stepen drws yn datgan yn bendant nad oedd yr Athro yn derbyn ymwelwyr."

Benson meddylodd Gareth a'r rhediad amser 'run fath. I fod yn siŵr holodd am ddisgrifiad.

"Rywle o gwmpas tri deg, gwallt brown talcen fawr. Llygaid yn symud drwy'r adeg fel rhywun yn barod am drafferth. Plaen, siarad mewn brawddegau stacato, yn rhoi argraff o ddiffyg amynedd, awydd i gael gwared. Stydiau mewn un clust, a chadwyn aur. Hollol wahanol i'r pictiwr arferol o nyrs."

"Diolch, os oes rhywbeth arall mae'r rhif ffôn ar y cerdyn."

Edrychodd Francis yn syth i lygaid Gareth a llyncu poer.

"Eisteddych, ma 'na rywbeth, rhywbeth personol a difrifol am Meurig Rhys. Ges i glywed gan gyfaill mewn plwyf cyfagos am y dybiaeth fod Rhys yn hoyw, yn gudd felly ac wedi milwrio yn erbyn ei rywioldeb ers blynyddoedd. Gweld y cyflwr fel pechod oedd yn wrthun i'w ffydd Gristnogol. Twp a gwirion rwy'n sylweddoli." Anadlodd yr offeiriad yn ddofn yn union fel petai'n casglu hyder. "Soniodd y cyfaill am helynt yn ystod cyfnod Edwin Vernon. Un o fechgyn y côr wedi cwyno am gyffwrdd amhriodol ac or-gyfeillgarwch. Er mawr gywilydd mygwyd y cyfan."

Nôl yng ngorsaf yr heddlu cyflwynodd Gareth fanylion ei gyfarfod. Os oedd Teri wedi rhyfeddu ni ddangosodd hynny ar y cychwyn. "A dyna ni," dywedodd mewn llais hunan-fodlon, "darnau allweddol o'r jig-so yn disgyn i'w lle. Mae'r adnod yn sôn am frad ffrind agos, person oedd yn gyfaill yn troi'n elyn. Neb llai na Nyrs Benson. Ni'n gwybod bod Rhys yn hen lanc, cilio rhag merched, bachu ar bob cyfle i ddiffrïo ac yn chwennych cwmni dynion. A nawr o enau'r Parchedig ei hun, y dantaith mwyaf blasus, Rhys yn hoyw ac fel y rhacsyn rhagrithiol ag oedd e, heb ddigon o gyts i fod yn onest am ei rywioldeb."

"Creda neu beidio, mae 'na fwy. Mynd i Penlan i dyrchu drwy'r cyfrifiadur a gweld fod Rhys, fel pob ffwlsyn o academydd, yn cadw'r cyfrinair yn nrôr y ddesg. Dim byd syfrdanol, dim porn, benywaidd na gwrywaidd. Ffeiliau gwaith, nodiadau darlithio a manylion cymdeithasau. A'r mwyaf od a sbwci, Cymdeithas y Wermod Lwyd, cymdeithas rithiol yn bodoli'n bennaf ar Facebook ac yn ôl y broliant man cyfarfod ysgolheigion, beirdd a llenorion sy'n edrych ar y byd a'i bethau drwy sbectol adain dde eithafol. Rhys yn aelod ac yn gyn-lywydd. Aelodaeth ar wahoddiad a dyma'r ffactor allweddol, y gymdeithas yn agored i ddynion yn unig."

"Ti'n dechrau deall Gar? Mae ein hyfryd Athro fel afal drwg, sgleinio a pherfffaith tu allan, brwnt a phwdr tu mewn. Ac yn binacl ar y pydredd Rhys yn ffidlan gyda chryts diniwed. A beth mae'r eglwys yn gwneud? Beth mae'r eglwys wastad yn gwneud - cwato'r sgandal o dan y carped."

hawlfraint © Geraint Evans

Mae'r heddlu ar drywydd y llofrudd. Gwnewch yn siŵr o'ch copi o rifyn Ebrill er mwyn darganfod mwy.

Tylineo Thai Trefechan

Trefechan Thai Massage

Tylineo Thai £25 yr awr
Tylineo Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster

Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

Tensiwn ar bob tudalen!

Nofelau ditectif GERAINT EVANS

yolfa.com

Llyfrau dros Gymru

O'r Mynydd i'r Môr: cyfweiliad â Sian Stacey

Pwy yw Sian?

Dwi'n dod o Sir Gâr ond rydw i'n byw ar lan y môr yn Aberystwyth ers 2019. Symudais yma i weithio yn Cywain, prosiect bwyd a diod Menter a Busnes. Cyn hyn roeddwn i'n byw a gweithio ar Ynys Enlli. Fi oedd y Warden/Rheolwr yr Ynys.

Beth yw prosiect O'r Mynydd i'r Môr?

Mae O'r Mynydd i'r Môr yn brosiect sy'n gobeithio hybu ecosystemau iach, cymunedau cryf ac economi lleol cynaliadwy o'r mynydd (Pumlumon) i'r Môr (Bae Ceredigion). Mae saith partner yn rhan o'r prosiect, a'r bwriad yw ehangu hyn dros y misoedd nesaf. Rydym eisiau cefnogi'r pethau da sydd eisioes yn digwydd yma, rhoi cyfle i ddatblygu syniadau newydd a chefnogi rhain.

Beth yw fy rôl i?

Ers Awst 2019, fi yw Cydlynnydd Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae'n bwysig iawn i ni wrando ar y bobl sy'n byw yn ardal y prosiect a sicrhau bod cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd i drafod dyfodol yr ardal. Wedi cynnal sawl grŵp trafod a threulio amser mewn pentrefi a'r trefi lleol, mae'n amlwg bod llawer iawn o waith da yn digwydd yma. Mae angen i ni ddathlu ac adeiladu ar y ffermio cynaliadwy sy'n elwa byd natur a'r holl fusnesau lleol sy'n cadw'r economi wledig i fynd.

Pam gwneud y swydd?

Ar Ynys Enlli, roeddwn i'n byw mor agos at y tir a natur ac yn profi sut roedd penderfyniadau'r fferm yn cael effaith positif ar fywyd gwyllt a natur. Fel lle i ymwelwyr, ro'n i'n gallu gweld sut gallai'r ynys wella safon/pris y cynnyrch er mwyn ei wneud yn fwy cynaliadwy. Mae'r themâu hyn yn rhan annatod o O'r Mynydd i'r Môr, dwi'n teimlo'n ffodus fy mod i mewn sefyllfa i helpu a hwyluso'r drafodaeth er budd yr ardal.

Ydy O'r Mynydd i'r Môr yn brosiect 'Rewilding' /Ailwylltio?

Na. Mae'r cysylltiad gydag ailwylltio/ rewilding wedi cael effaith negyddol ar y prosiect. Mae'r bobl leol wedi esbonio wrthai eu bod nhw'n ofni bod y prosiect am gefnu ar y tir a'i adael i fynd yn ddiffaith, nid dyma beth mae O'r Mynydd i'r Môr yn gobeithio gwneud. Roedd Rewilding Britan yn rhan o'r prosiect nes Hydref 2018, roedd pobl yn ofni byddai'r prosiect yn cyflwyno bleiddiaid, lyncs a rhywogaethau rheibus eraill i'r ardal, nid dyma'n bwriad ni. Rydym am gefnogi cynefinoedd sydd yn dda i natur, pobl a'r economi.

Beth sydd ar y gweill?

Ers i Rewilding Britain adael, rydym wedi bod yn brysur yn ail-sefydlu'r prosiect. Dwi wedi bod yn cyfarfod â nifer o unigolion, a grwpiau lleol er mwyn dysgu am syniadau a phryderon y bobl leol a meddwl sut gallwn ni addasu'r prosiect er gwell. Rydw i wedi cynnal naw cyfarfod agored a chwrdd 150 o bobl leol. Roedd yn gyfle gwych i ddysgu am anghenion y gymuned ehangach. Mae adroddiad llawn ar ein gwefan <http://www.ormynyddirmor.cymru/> ebosti'wch fi am wybodaeth bellach sian.stacey@summit2sea.wales



Sian Stacey

Dewch i gwrdd â fi am ddiod a sgwrs!

Cletwr, Dydd Mawrth 31ain o Fawrth – 14:00 – 16:00
Bwyty Byrgyr, Aberystwyth – Nos Iau, 16eg Ebrill 18:00 – 20:00
Caffi Alys, Machynlleth – Dydd Mawrth 21ain Ebrill 14:00 – 16:30

Gwenan Gibbard Sesiwn Nos Wener

Roedd 'stafell y Llew Gwyn yn leoliad ddelfrydol ar gyfer noson yng nghwmni Gwenan Gibbard, y delynores dalentog o Llyn – yn lloches glyd yng nghanol yr holl dywydd stormus a gafwyd yn ddiweddar. Roedd nifer da wedi dod ynghyd gan gynnwys sawl wyneb newydd i weithgareddau Sesiwn Nos Wener.



Os oedd y lleoliad yn berffaith, roedd y perfformiad hefyd o'r radd flaenaf.

Cyflwynodd Gwenan raglen liwgar a dychmygus o ganeuon ac alawon, amryw ohonynt wedi'u seilio ar ffrwyth ei gwaith ymchwil i archif Merêd a Phyllis yn y Llyfrgell Genedlaethol. Bu Gwenan yn esbonio cefndir pob cân ac yn cyfathrebu â'r gynulleidfa yn ei ffordd hawddgar ddihafl.

Roedd ganddi hi eiriau o ganmoliaeth i'r gynulleidfa hefyd gan ddiolch iddynt am fod 'y gynulleidfa orau erioed' (erioed, cofiwch!) o ran ymuno yn y caneuon ac ansawdd y canu. Roedd ei llais hithau mor loyw ag aderyn – addas iawn i noson 'priodas yr adar'!

Diolch yn fawr i staff y Llew Gwyn am eu croeso a lletygarwch arferol ac i Gynllun Noson Allan am ei cefnogaeth.

Martin a Siân

argraffu da
am bris da

yl Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576



Bois y Gilfach yn morio canu

Unwaith eto eleni daeth yr hen a'r ifanc ynghyd yn Neuadd Goffa Tal-y-bont mewn dathliad cymunedol i gofio am ein nawddsant. Cafwyd gwledd o gawl a chacennau a chân a chyfle i gymdeithasu mewn awyrgylch hyfryd.

Bois y Gilfach, o dan arweiniad Heledd Williams, o ardal Mydroilyn a'r cyffiniau, oedd yn darparu'r adloniant ac wrth eu cyflwyno cyfeiriodd Bob Penwern at awydd y pwyllgor ers sawl blwyddyn i ddenu'r parti ond bod amgylchiadau anorffod, gan gynnwys tywydd gwael wedi ein rhwystro yn y gorffennol. Eleni, fodd bynnag fe lwyddwyd i'w denu a mawr oedd y croeso i'w canu safonol a'u hiwmor iach.



Lowri Menna yn myynhau ei hun yn ei Hwyl Ddewi cyntaf, ynghyd â'i theulu



Teuluoedd Cwm Tŷ nant yn myynhau'r arlwy

Aelodau a chyfeillion Pwyllgor y Neuadd oedd yn gyfrifol am ddarparu'r ymborth, am harddu'r Neuadd ac am weini ar y noson. Talwyd y diolchiadau ar ddiwedd y noson gan Gadeirydd newydd y Pwyllgor, sef Janet Llwynglas a chyfeiriodd at yr holl rai a gyfrannodd at lwyddiant y noson ac am eu parodrwydd i gefnogi'r gwaith.

Am yr ail flwyddyn yn olynol rhannodd y Neuadd Goffa yr elw gyda Phwyllgor Apêl Ceulanamaesmawr ar gyfer Eisteddfod Ceredigion. Rhannwyd bron i £600 o elw a chododd y Pwyllgor Apêl bron i £200 ychwanegol wrth werthu dwy raffl. Mawr yw ein diolch i'r gymuned gyfan am eu cefnogaeth hael.

Ffermio Cymysg



Oes gynnwch chi...

- Cofnodion ffermio
- Ffotograffau'n ymwneud â ffermio
- Dyddiaduron neu gyfnodolion
- Deunyddiau sy'n gysylltiedig â ffermio lleol

Galwch heibio i'n **Diwrnod Digideiddio Cymunedol** yn **y Plas, Machynlleth**, ddydd **Mercher 15 Ebrill** rhwng **10 a 2** a rhannu'ch hanes.

Sefydliad lleol yw ecodyfi sy'n ceisio defnyddio hanes ffermio ac amaethyddiaeth gymysg Cymru i gefnogi dyfodol cynaliadwy. **Gallwch chi helpu!**

Dewch â hen gofnodion ffermio, ffotograffau a mwy y gallwn eu sganio ar y safle.

Andy Rowland: andy@ecodyfi.cymru / 01654 703965



STORFA HUNAN FYNEDIAD



UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI



MONITRO DIOGELWCH
24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda **Wales REMOVALS**

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592

Heol Y Dôl, Machynlleth, SY20 8BQ

MID WALES STORAGE

www.midwalesstorage.co.uk

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrw: £7.95 Dau gwrw £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245

garethwhitelion@outlook.com

Colofn Ben Lake

A hithau'n fis Mawrth, mae fy nyddiadur unwaith eto eleni yn llawn o ddigwyddiadau sy'n codi calon – ciniawau, cyngherddau, gwasanaethau, gorymdeithiau – i gyd wedi'u trefnu er mwyn dod â phobl at ei gilydd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, nawddsant Cymru.

Yn ôl yr hanes, rhai o'r geiriau olaf i Dewi Sant eu hynganu cyn iddo farw oedd "Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i."

Gwnewch y pethau bychain. Dwi wastad yn trio atgoffa fy hun o'r dywediad arbennig hwn wrth i mi fynd ati i gynrychioli cymunedau Ceredigion yn San Steffan. Ry'n ni'n siarad yn aml, yn enwedig ym myd gwleidyddiaeth, bod angen trawsnewid ein gwasanaethau cyhoeddus, angen newid systemau o weithredu, angen chwyldroi ein cyfundrefnau iechyd ac addysg yn gyfangwbl. Ond byddwn i'n dadlau'n gryf bod angen cofio a chanolbwyntio ar y pethau bychain hefyd.

Yn wyneb y sefyllfa wleidyddol sydd ohoni, byddai'n hawdd i ni fel unigolion yng nghefn gwlad Ceredigion deimlo'n ddi-rym a theimlo nad oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i daclo heriau enfawr ein hoes. O'r argyfwng hinsawdd i gryfhau economi cefn gwlad, o atal allfudo pobl ifanc i daclo problemau iechyd meddwl ac unigrywdd mewn cymdeithas – "does dim byd alla' i wneud fel unigolyn, oes e?". Ond o ddechrau wrth ein traed, ac o wneud y "pethau bychain" yn gyson, ac o siarad am yr hyn ry'n ni'n ei wneud gyda chyfeillion, cymdogion a chydweithwyr.... onid oes modd i ni, gyda'n gilydd, wneud gwahaniaeth mawr?

Dwi'n edmygu'n fawr ymdrechion mudiad y ffermwyr ifanc dros yr wythnosau diwethaf sydd wedi bod yn taclo stigma iechyd meddwl ymhlith y gymuned amaethyddol. Cynhaliodd C.F.F.I Ceredigion, Sir Gâr a Phenfro noson eithriadol o lwyddiannus yn Nghastell Newydd Emlyn yn ddiweddar i godi ymwybyddiaeth am y pwnc. Mae C.F.F.I. Cymru hefyd wedi mynd ati i recordio a rhyddhau sengl 'Bydd Wych', gyda'r elw yn mynd tuag at elusen iechyd meddwl Cymraeg () – ewch i 'iTUNES' i lawrlwytho copi!


Dim ond rhai engreiffitiau yw'r rhain wrth gwrs. Gwn fod yna gannoedd os nad miloedd o bobl, grwpiau cymuned-ol a mudiadau sy'n gweithio'n ddiflino er mwyn gwella bywydau pobl a gwneud gwahaniaeth yn ein cymunedau gwledig, a diolch byth amdanynt. A dyna'r her dwi'n ei osod i bob un ohonom, heddiw a phob diwrnod o'r flwyddyn; gwnewch y pethau bychain - a phwy a wŷr, efallai, gyda'n gilydd, y gwelwn ni wahaniaeth mawr.



Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Meinir Edwards, Llandre, oedd y wraig wadd yn y cyfarfod ar nos Lun, 17 Chwefror. Mae Meinir yn awdur ac yn gweithio fel golygydd llyfrau Cymraeg yng ngwasg Y Lolfa, a chawsom ganddi ychydig o'i hanes a'i gwaith bob dydd cyn iddi sôn am y fenter o sefydlu'r cylchgrawn *Cara*. Penderfynodd hi a'i merch Efa lansio'r cylchgrawn gan ferched i ferched yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2018 er mwyn llenwi'r bwlch am gylchgrawn o'r fath yn y Gymraeg. Mae *Cara* yn cynnwys erthyglau ar bynciau amrywiol sy'n apelio at ferched, megis ffasiwn, colur, iechyd, bwyd, teithio, merched difyr, y celfyddydau, a materion cyfoes. Mae'r cylchgrawn yn wahanol i ddeunyddiau eraill a gyhoeddir yn Gymraeg gan fod ynddo rai erthyglau dwys a rhai ysgafn, a'r cyfan yn siŵr o apelio at ferched o bob oed. Diolchwyd yn gynnes i Meinir am noson ddifyr gan ddymuno iddi bob llwyddiant gyda'r fenter. Roedd y noson yng ngofal Carys Briddon, Ann Humphreys a Mai Leeding.

Cletwr



Crefftau'r Pasg

Dydd Mercher 8 Ebrill
15.00 - 17.00

Ymunwch gyda Julieanne o Cletwr i wneud cartrefi lliwgar ar gyfer cywion ac eitemau eraill ar thema y Pasg. Yn ddelfrydol i blant rhwng 2 a 10 ond mae croeso i bawb gymryd rhan! Rhaid archebu ymlaen llaw. £3.00.

events@cletwr.com
01970 832 113



Y CRYNWYR

HOLI AC ADDOLI
CWRDD CYFRWNG CYMRAEG
Y trydydd Sul o'r mis 15 Mawrth am 3 pm

TY CWRDD Maes Maelor Penparcau SY23 1SZ

CROESO CYNNES I BAWB
Ymholiadau: 01970 612794 medijames22@gmail.com

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

MAE'R EISTEDDFOD YN DOD!

DANGOSWCH EICH CEFNOGAETH
GYDA HWDI NEU GRYS-T!

Cysylltwch am wybodaeth:
Nia Wyn Davies
niawynmaesglas@gmail.com
07968 223 653



CHWARAEON



Benj, Dez a Zammo

Tîm tu ôl y Teigrod

Mae deuwadaw disglair yn frith yn hanes pêl-droed. Dalglish a Rush, Saint a Greavise a Mr Picton a Wali i enwi rhai blaenllaw. Nawr mae gennym Dez a Benj!

Mae Derek Roberts a Wyn Benjamin, i roi iddynt ei enwau llawn, yn ddau hogyn lleol sydd bellach yn rheoli a hyfforddi Clwb Pêl-droed Tal-y-bont. Maent yn gwneud yn reit dda chwarae teg gyda fod y tîm yn nhrydydd safle yn y gynghrair ar hyn o bryd.

Ar brynawn stormus ar ddiwrnod olaf mis Chwefror mae'r ddau sydd wrth y llyw wrthi'n frwd yn ysgogi'r tîm wrth iddynt fynd ati mewn gêm gynghrair yn erbyn Turfs Tregaron yng Nghoedlan y Parc, sef cartref Clwb Pêl-droed Aberystwyth.

Yn anffodus, er mae cael a chael oedd hi, y Turfs wnaeth oroesi ar y dydd o 5 gôl i 1. Roedd hyn yn dilyn 10 munud gwallgo yn yr hanner cyntaf lle aeth popeth weithio i'r Turfs. Roedd wastad yn mynd i fod yn anodd dod nôl o 4-0 ar yr hanner ond er gwaethaf hyn gwnaeth y bechgyn ddal ati chwarae teg a roedd yr ail hanner yn gyfartal 1-1.

Er colli ar yr achlysur yma, mae'n amlwg iawn bod yna ethos tîm cryf ofnadwy ymysg y chwaraewyr â'r tîm rheoli. Mae yna frwdfrydedd, egni, dyfal barhad yn ogystal ag angerdd dros yr achos sydd yn adlewyrchiad o'r diwylliant mae Dez a Benj wedi ei feithrin. Mae'r ddau yn dod a phrofiad sylweddol fel chwaraewyr llwyddiannus a dilynwy'r brwd o'r gêm sy'n ennyn parch y chwaraewyr.

Mae'r Teigrod presennol yn gymysgedd o chwaraewyr o Dal-y-bont a'r cyffiniau, rhai sydd â chysylltiadau cryf â'r pentref, yn ogystal â rhai o bellach i ffwrdd. Mae nhw'n griw aml-dalentog ar, ac oddi ar y cae gydag athro, adeiladwr a seiri yn ei mysg. Da gweld bod yna enwau cyfarwydd, gan gynnwys Roberts, Southgate a Barron sydd â chryn hanes gyda'r Clwb yn dal i fod yng nghanol pethe.

Ynghyd â Dez a Benj mae yna grwt lleol arall, Zammo, neu i roi i yntau ei enw iawn, Evan Rowlands, sydd yn arwain tu ôl y llenni yn gwneud y trefniadau ac edrych ar ôl pethau o safbwynt gweinyddol.

Mae Dez, Benj a Zammo yn gwerthfawrogi pa mor bwysig yw'r ochr gymdeithasol o unrhyw dîm chwaraeon fel ffordd o ddatblygu cyfeillgarwch hir oes a mae hyn yn digwydd ar ac oddi ar y cae. Efallai bod hyn yn esbonio pam fod Zammo, wedi diod neu ddau i llacio'r llais, yn arwain fel codwr canu ar ôl y gemau! Meddai Dez, "Mae e gyd yn rhan o greu naws ac awyrgylch da ymysg y grŵp ac mae gwneud hyn yn medru cael dylanwad cadarnhaol ar ymroddiad a pherfformiad ar y cae. Ar ddiwedd y dydd mae e gyd ambiti cael hwyl gyda ffrindiau".

Mae Benj yn gobeithio am ddiweddlo cryf i'r tymor. "Mae trefn y gynghrair nawr yn golygu fod ddim llawer o gemau ar ôl 'da ni. Beth sydd yn bwysig yw gorffen yn dda fel ein bod yn y sefyllfa gorau er mwyn adeiladu ar gyfer tymor nesa".

Mae'n parhau i fod yn freuddwyd i weld y Teigrod yn chwilio cartref nôl yn agosach i'r pentref a fel dywedodd Zammo, "Rydym yn cydnabod pwysigrwydd clybiau fel tîm pêl-droed sy'n gallu cyfrannu gymaint i fwrlwm bywyd a chymuned fel Tal-y-bont a byddwn yn parhau i edrych am gyfleoedd i wireddu'r freuddwyd".

Heblaw am y Teigrod, Villans Aston Villa yw tîm Zammo a Diawled Coch Manchester United yw tîm Dez. Braf iawn felly iddynt nodi pa mor falch oeddent i weld Lerpwl, tîm Benj, yn carlamu tuag at gipio'r Uwch Gynghrair eleni! Os gredwch hynny, mae pêl-droed, fel oedd Greavise yn arfer ddweud, wir yn "funny old game"!

Y Gair Olaf



Ydych chi wedi bod yn cerdded y prom yn ddiweddar? Efallai nad ydych chi sylwi ar loches Côr y Castell. Ar ddiwrnod stormus a gwlyb, hawdd yw cerdded heibio gyda'ch pen i lawr ond edrychwch fyny wrth droi'r cornel ger y 'crazy golf' ac fe welwch chi rywbeth i godi'ch calon. Darn o gelf i dynnu'ch sylw, ond beth sy'n ei wneud yn wahanol? Cafodd ei ddylunio a'i greu gan ieuenctid yr ardal yn ystod chwe diwrnod o wyliau ysgol. Trawnewidiwyd ardal ddiflas oedd yn cael ei ddifrodi'n gyson i mewn i fan deiniadol i'r gymuned gyfan.

Drwy roi cyfleoedd fel hyn i bobl ifanc, rydym yn eu hannog i fod yn rhan o'u cymuned ac i barchu gwerthoedd y gymuned. Mae angen i bob person ifanc mewn cymdeithas gael yr un cyfleoedd i ddatblygu a thyfu.

Beth am gynorthwyo yn natblygiad ieuenctid yr ardal? Rydym wedi ail-sefydlu'r Clwb Ieuenctid yn y pentref dwy flynedd yn ôl ac yn croesawu hyd at 30 bob nos Wener rhwng 18:30 - 20:30.

Lowri Evans

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol mis Chwefror 2020

Cynhaliwyd cyfarfod misol mis Chwefror y Cyngor Cymuned ar nos Lun, 24 Chwefror 2020, gyda naw o'r Cynghorwyr yn bresennol ynghyd â'r Clerc, Mr Rab Jones. Dymunodd y Cadeirydd, Cyng David Jones, croeso cynnes i bawb.

Cynllunio

Trafodwyd dau gais cynllunio newydd yn ystod y cyfarfod. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd cynnig dim barn ar gais i godi modurdy a gweithdy ar ddarn o dir gyferbyn â Llawryglyn, Bont-goch. Cytunwyd mwyafrif o'r Cynghorwyr gefnogi cais i newid defnydd cae amaethyddol ar gyfer lleoli pump uned gwersylla moethus ger Pensarn, Tal-y-bont.

Materion Ffyrdd a Materion Eraill

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyda nifer o eitemau sydd angen sylw ar y ffyrdd yn y Gymuned a nifer o faterion eraill. Cadarnhaodd Cyng Nest Jenkins fod y bompren islaw Cerrig Mawr wedi cael sylw a bod nifer o'r hen styllod wedi cael eu hadnewyddu. Mynegwyd pryder am broblemau gyda baw cŵn ym mhentref Tal-y-bont a chodwyd pryder gan nifer o'r Cynghorwyr am broblemau gyda'r gwasanaeth ysbwriel yn yr ardal yn ddiweddar.

Sedd Wag ar y Cyngor a'r Cyfarfod Nesaf

Cafwyd diweddariad gan y Clerc ar y broses o lenwi'r sedd wag ar y Cyngor Cymuned. Eglurodd fod neb wedi dangos diddordeb hyd yn hyn. Cadarnhaodd y Clerc bydd cyfarfod misol nesaf y Cyngor ar Nos Lun, 30 Mawrth 2020.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
rab.jones@btinternet.com / 07831 402 002